**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG**
**GYNHALIWYD YN Y NEUADD 6 MEHEFIN 2024 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Nicola Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Eifion Jones, Meinir James, Elfyn Williams, Jenny Jones, Janet Knott, Carys Thomas, Rheinallt Jones, Shan Rees ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Viv Davies.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod a Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 15fed Mai 2024.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Derbyniwyd adroddiadau ar gyflenwadau craidd caled a'r posibilrwydd o fynedfa newydd yn cael ei agor. Bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Tîm Gorfodi. Mynegwyd pryder hefyd mewn perthynas â chŵn rhydd o'r safle, bydd hyn hefyd yn cael ei drafod gyda'r Cyngor Sir.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **FC29/4 Pentrepoeth** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaeros, Idole –** Mynegwyd pryder ynghylch y posibilrwydd fod cyfnod ymgynghori newydd yn cael ei hysbysebu ar gyfer y safle. Bydd y Clerc yn codi'r mater gyda'r Adran Gynllunio i'w gadarnhau. Nodwyd nad oedd penderfyniad wedi derbyn ar y cais i Lywodraeth Cymru galw mewn y cais.
7. **Biniau Sbwriel Cyhoeddus yn y Cymuned –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Mynegwyd pryder am y sefyllfa yn enwedig o ran yr effaith ar sbwriel a disgwyliadau i sicrhau ailgylchu yn y Gymuned.
8. **Grid Cenedlaethol** – **Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog** – Darparodd y Clerc fanylion y cais am ollyngiad i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir ar gyfer aelodau'r Cyngor. Derbyniwyd cadarnhad hefyd o'r bwriad i ymgynghori gyda'r Cyngor Cymuned ac ystyried digwyddiad ymgynghori yn y Gymuned. Nodwyd.
9. **Materion Llifogydd yng Nghilgadan** – Credir bod y gwaith yn y lleoliad hwn wedi'i gwblhau. Nodwyd.

10. **Archwiliad Cymru** – Cafwyd cadarnhad bod Archwilio Cymru yn ymchwilio mewn i'r mater gan fod camgymeriad tebygol yn yr anfoneb a godwyd ar gyfer 2021-22. Nodwyd.
11. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
12. **Nododd y Cynghorydd Meinir James ei diddordeb yn y mater hwn - Ymgynghoriad ar y gwaharddiad arfaethedig ar aros ar unrhyw adeg / gwahardd stopio yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
13. **Arwydd adborth cyflymder yng Nghwmffrwd -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
14. **Goleuadau troedffordd yn Frondeg** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
15. **Troedffordd Stad Tai Croesyceiliog –** Derbyniwyd cadarnhad fod y llwybr troed yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y datblygwr. Nodwyd.
16. **Tyllau ar yr heol yn Llandyfaelog –** Roedd y Clerc wedi adrodd y mater i'r Cyngor Sir. Nodwyd.
17. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynnau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
18. **Arwyddion ochr ffordd** – Nodwyd difrod i'r arwydd 50mya ym Llwyncelyn. Bydd y Clerc yn adrodd y mater i'r Cyngor Sir.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** Digwyddiadau hyfforddi Mehefin, Gorffennaf, Awst, Medi. Nodwyd.
2. **Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru –** Gynhadeldd Ymarferiad Arloesol, 3$^{ydd}$ Gorffenaf. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad cau ffordd dros dro'r U2210 Cwmffrwd, o bwynt 235 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r A484, am bellter o 55 metr i gyfeiriad y de-orllewin ar 6$^{ed}$ Mehefin 2024 am cyfnod o 2 diwrnod. Nodwyd.
5. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** Cylchlythyr Calon Tân. Nodwyd.
6. **Un Llais Cymru –** Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar egwyddorion amgylcheddol a thargedau bioamrywiaeth. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o Gau Ffordd Argyfwng yr U2227 yn Llandyfaelog o ddydd Mawrth 28$^{ain}$ Mai 2024 tan ddydd Iau 30$^{ain}$ Mai 2024. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth mewn perthynas â digwyddiadau posib i nodi Diwrnod Cofio'r Holocost yn 2025. Nodwyd.
9. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â materion cynllunio ym Maesglasnant, sef bod y Cyngor Sir a'r datblygwr yn cyfarfod ar gyfer cyfryngu ym mis Mehefin i benderfynu a oedd y mater i'w ddwyn ymlaen i'r Uchel Lys. Nodwyd.
10. **Cadwch Gymru'n Daclus –** Gwybodaeth am Wobrau Cymru Daclus 2024. Nodwyd.
11. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad Cynghorau Cymuned a Thref. Nodwyd.
12. **Un Llais Cymru** – Canllawiau Gweithio'n Ddigidol. Nodwyd.
13. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cau ffordd dros dro o Heol Nantyglasdwr, Caerfyrddin, o bwynt 640 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â'r A484, am bellter o

25 metr i gyfeiriad gogledd-orllewinol ar 12fed Mehefin 2024 o 09:30yb i 15:30yp.

14. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cau ffordd dros dro’r yr C2074 Llansaint o fan sydd 350 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â'r C2057, am bellter o 300 metr i gyfeiriad y gogledd ar Dydd Mawrth 27ain Awst 2024 rhwng 09:30yb a 15:30yp am gyfnod o un diwrnod. Nodwyd.
15. **Llywodraeth Cymru – Aelod Cabinet Gogledd Cymru a Thrafnidiaeth** – Llythyr yn gofyn am ymatebion i'r ymgynghoriad ar newidiadau i'r terfynau cyflymder 20mya. Nodwyd.
16. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cau ffordd dros dro'r C2074 Croesyceiliog o bwynt 990 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r A484, am bellter o 190 metr i gyfeiriad y gogledd ar 18fed Mehefin 2024 o 09:00yb i 15: 30yp. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau’r Cyngor**

1. **Diffibrilwyr**

   Cadarnhaodd y Clerc gost o £395.00 gan Ymatebwyr Cyntaf Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot ar gyfer casyn addas ar gyfer Glanmorlais. Cytunwyd hyn.

2. **Cae Idole**

   Cadarnhaodd y Clerc fod chwistrellu chwyn wedi ei wneud o amgylch tu allan y cae.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio yn Mai gyda chost o £616.00 yn cael eu gytuno. Cytunwyd taliadau torri gwair ar gyfer mis Mai ar gost o £308.00 hefyd.

**9. Adroddiad Blynyddol 2023-24**

Cyflwynodd y Clerc y ffurflen flynyddol a archwiliwyd yn fewnol gan Charles and Company Accountants (nid oedd yr Archwilydd penodedig, Mark Gower ar gael). Derbyniwyd a nodwyd adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ardystio a llofnodi'r ffurflen flynyddol. Nodwyd bod arian wrth gefn y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn yn £21,284 (£22,732 2022-23).

Cytunodd y Cyngor y Ffurflen Flynyddol a chwblhawyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi'r ffurflen.

Cytunwyd y Cyngor daliad y ffi Archwilio sef £150.00 gyda TAW.

Cyflwynodd y Clerc hefyd Adroddiad Blynyddol drafft y Cyngor am y flwyddyn 2023-24. Cymeradwywyd y ddogfen a bydd yn cael ei chyhoeddi ar y wefan ynghyd â’r hysbysiad cyfrifon.

Yn ogystal, gan ffurfio atodiadau fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol cyflwynodd y Clerc y Cynllun Gweithredu Datblygu Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Drafft 2024-26 a Chynllun Hyfforddi Drafft 2024. Cymeradwywyd y dogfennau hyn.

Diolchwyd i'r Clerc am ei waith ar yr Adroddiad Flynyddol a Ffurflen Flynyddol a chofnodion ariannol y Cyngor.

**10. Digwyddiadau Cymunedol 2024**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2024 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi – Llysiau (Mehefin / Gorffennaf) a Blodau (Awst);
- Cystadleuaeth Bwgan Brain – thema'r Gemau Olympaidd.

**11. Cynllunio**

1. **PL/07742** - Newid defnydd ysgubor yn fwthyn gwyliau - Gellilednais, Uplands, Caerfyrddin, SA32 8DZ. Dim gwrthwynebiadau.

**12. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen –** Dim cyfraniad.
2. **Cymdeithas Dahlia Gorllewin Cymru –** Dim cyfraniad.
3. **Menter Cwm Gwendraeth Elli –** Cytunwyd cyfraniad o £25.00.

**13. Cyfrifon**

**a) Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| 1. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Mai a costau** | £722.43 | **£26.00<br>£7.00<br>£20.70<br>£6.80** | **£782.93** | **£298.60** | | **£484.33** |

2. **Charles and Co Accountants** **£180.00** Cost Archwilio (£150.00 gyda TAW £30.00 VAT) (Gweler eitem 9)
3. **Ymatebwyr Cyntaf Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot** **£395.00** Casyn Diffibriliwr Glanmorlais (gweler eirem 7.1)
4. **Cyng Shan Rees** **£42.00** Blodau
5. **Michael Leefe** **£616.00** Atgyweiriwr Mai (gweler eitem 8)
6. **Michael Leefe** **£308.00** Torri Gwair Mai (gweler eitem 8)
7. **Menter Cwm Gwndraeth Elli** **£25.00** Rhodd (gweler eitem 12.3)

**15. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Roedd y Clerc wedi adrodd y materion canlynol i'r Cyngor Sir:
   a) Angen torri tyfiant cloddiau ar gyffordd Upland Arms â'r A484.
   b) Angen torri tyfiant o gwmpas Maescyneiddion, Bancycapel.

2. Bydd y Clerc yn adrodd am angen torri gwair o amgylch cyffordd Croesyceiliog gyda’r A484 (cyfeiriad Cydweli).
3. Nodwyd bod torri coed wedi'i wneud yng Nghroesyceiliog.
4. Bydd cadarnhad yn cael ei gofyn ar gynlluniau ar gyfer plannu blodau ym mlychau arwyddion pentref yn y Gymuned.
5. Bydd y Clerc yn adrodd bod angen torri gwair ar gyffordd Glanmorlais.
6. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i opsiynau ar gyfer digwyddiadau hyfforddi Cymunedol pellach.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 11fed Gorffennaf 2024.**